

ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	3 Mawrth 2022
Pwnc:	Cartrefi'r Awdurdod Lleol ar gyfer Pobl Hŷn - Pennu'r Ffi Safonol 2022/23
Aelod(au) Portffolio:	Y Cyngorydd Llinos Medi Huws
Pennaeth Gwasanaeth:	Arwel Wyn Owen
Awdur yr Adroddiad:	Carwyn Edwards, Rheolwr Cyllid
Ffôn:	01248 752699
E-bost:	CarwynEdwards@ynysmon.gov.uk
Aelodau Lleol:	Yr holl Aelodau

A – Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

Mae angen i'r Awdurdod Lleol bennu ei Ffi Safonol ar gyfer ei gartrefi gofal am y flwyddyn Ebrill 2022 – Mawrth 2023.

Fel yn y blynyddoedd diwethaf, mae costau holl gartrefi'r Cyngor (ac eithrio Garreglwyd sydd yn ddarpariaeth gwasanaeth arbennig) wedi eu cronni i gyfrifo ffi safonol gyfartalog ar gyfer y cartrefi yn unol â Chanllawiau Cenedlaethol.

Yn ystod 2021/22, cyfrifwyd y Ffi Safonol yn £786.50 yr wythnos, yn seiliedig ar gyfraddau defnydd o 93.25% ar draws y 4 cartref preswyl mewnol (ac eithrio Garreglwyd, fel y nodwyd uchod). Oherwydd effaith y pandemig Covid19 ar lefelau defnydd, penderfynwyd cyfrifo'r ffioedd ar gyfer 2021-22 yn seiliedig ar ddata a gasglwyd yn ystod 6 mis cyntaf blwyddyn ariannol 2020/21. Penderfynodd y Pwyllgor Gwaith gynyddu'r ffioedd yn unol â gwir gost y ddarpariaeth, a hynny'n raddol dros gyfnod o 2 flynedd, ac, o ganlyniad i'r penderfyniad hwn, £754.36 yr wythnos oedd y ffi ar gyfer 2021/22 yn hytrach na'r gwir gost o £786.50 yr wythnos.

Oherwydd newidiadau i lefelau defnydd yn ystod 2021/22 o ganlyniad i'r pandemig Covid19, rydym wedi penderfynu ychwanegu costau chwyddiant i gostau rhedeg 2021/22, ac rydym wedi defnyddio'r lefelau defnydd cyn Covid19 i gyfrifo'r ffioedd ar gyfer 2022/23. Byddai cyfrifo'r ffioedd yn seiliedig ar wariant gwirioneddol yn 2021/22 + chwyddiant ynghyd â lefelau defnydd is yn cynyddu'r ffioedd yn sylweddol ac ni fyddent yn adlewyrchu'r gwir gost unwaith y byddai lefelau defnydd yn cynyddu.

Dylid bod yn ofalus wrth gymharu'r ffi safonol gyda ffioedd awdurdodau eraill oherwydd, er gwaethaf canllawiau, efallai nad yw awdurdodau eraill wedi cyfrifo'r ffi ar yr un sail.

Mae'r tabl a ganlyn yn cyfrifo cost wythnosol amcangyfrifedig fesul preswlydd am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023 yn seiliedig ar lefelau defnydd 2021/22 a chostau rhedeg 2020/21 yn ogystal â'r cynnydd mewn chwyddiant dros gyfnod o 2 flynedd.

Nifer y gwllâu sydd ar gael	101
Amcangyfrif o'r Cyfraddau Defnydd yn seiliedig ar ddata 2020/21	93.25%
Amcangyfrif o Nifer yr Wythnosau Preswlydd yn seiliedig ar ddata 2020/21	4,911

	Costau Rhedeg 2022/23 £	Ffi Safonol 2022/23 £	Ffi Safonol 2021/22 £	Ffi a Godwyd 2021/22 £
Amcangyfrif o Gostau Rhedeg 2022/23 yn seiliedig ar gostau rhedeg 2020/21 + chwyddiant	3,489,340	710.52	697.44	
Ychwanegu - Tâl Dibrisio	250,550	51.02	49.47	
- Gwasanaethau Cefnogaeth	196,385	39.99	39.59	
CYFANSWM	3,936,275	801.53	786.50	754.36
Cynnydd o gymharu â'r ffi safonol yn 2021/22	1.91%		£15.03	

Yn seiliedig ar y tabl uchod, amcangyfrifir bod y gost wythnosol fesul preswlydd am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023 yn £801.53.

Mae'r gost wythnosol amcangyfrifedig fesul preswlydd ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023 yn uwch o gymharu â'r gost amcangyfrifedig ar gyfer y flwyddyn i 31 Mawrth 2022. Mae hyn o ganlyniad i chwyddiant.

Argymhelliad

Gan gydnabod mai 2022/23 yw blwyddyn olaf y cynllun 2 flynedd ar gyfer gallu cynyddu ffioedd, rydym yn argymhell ein bod yn codi cost llawn y gwasanaeth, sef **£801.53** yr wythnos.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?

Mae gosod y tâl safonol yn dilyn dull rhagnodedig nad yw'n caniatáu i opsiynau gael eu hystyried. Mae'n bosibl i'r Pwyllgor Gwaith osod ffi sy'n wahanol i'r Tâl Safonol. Gohiriodd y Pwyllgor Gwaith gyflwyno ffi sy'n cyfateb i'r tâl safonol yn 2021/22, ond bu'n fwriad dod â'r ddau ynghyd ers nifer o flynyddoedd. Mae codi tâl sy'n llai na'r tâl safonol yn golygu bod y Cyngor yn sybsideiddio cost gofal cleientiaid sydd wedi eu hadnabod fel rhai sydd â'r modd ariannol i dalu cost llawn eu gofal. O ganlyniad, mae'r opsiwn wedi ei ddiystyru.

C – Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae gofyn i Awdurdodau Lleol, o dan Adran 22 Deddf Cymorth Gwladol 1948, i osod y Tâl Safonol ar gyfer ei gartrefi.

CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Mae'r penderfyniad hwn yn gyson â'r Polisi Cenedlaethol, a nodir yn Adain C uchod.

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydi

Dd – Aseu'r effaith bosibl (os yw'n berthnasol)		
1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith ar anghenion hir dymor yr Ynys?	Mi fydd gosod y ffi yn effeithio ar nifer fach o gleientiaid sy'n talu'r gost lawn am eu gofal yn unig. Ychydig iawn o effaith a gaiff y penderfyniad hwn ar anghenion hirdymor yr Ynys,
2	A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?	Mae'r penderfyniad yn dileu'r cymhorthdal y mae'r Cyngor yn ei roi i'r cleientiaid hynny sydd wedi'u nodi fel rhai sydd â'r modd i dalu eu costau gofal yn llawn.
3	A ydym wedi bod yn gweithio ar y cyd â sefydliadau eraill i wneud y penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod i bwy	Amherthnasol
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt? Eglurwch sut.	
5	Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010	
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad yn ei chael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	Byddai'r penderfyniad yn effeithio ar y cleientiaid sydd wedi'u hasesu fel rhai sydd â'r modd i dalu am gost lawn eu gofal. Nid yw'r rhain yn grŵp sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.
7	Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Dim effaith ar y iaith Gymraeg
E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu sylwadau?		
1	Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)	
2	Cyllid / Adran 151 (gorfodol)	
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)	
4	Adnoddau Dynol (AD)	Amherthnasol
5	Eiddo	Amherthnasol
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	Amherthnasol
7	Sgriwtini	
8	Aelodau Lleol	Amherthnasol
9	Unrhyw gyrff allanol / eraill	Amherthnasol
F - Atodiadau:		
Dim		
FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):		
Dim		